



GADWYN BRO



Cylchgrawn Eglwysl Bro Dinbych

Gwelndog: Y Parch Ddr Andras Iago – Ffon- 07778511672.

Rhagfyr 2017

Rhif 081

Beth mae'r gair 'Nadolig' yn dwyn i gof i chi? Yr hyn sy'n dod i fy meddwl yn syth yw'r daith o dde Cymru i'r gogledd. Yn amlach na pheidio mi fyddem ni'n treulio'r ŵyl gyda fy Nain yn Nhrawsfynydd. I blentyn ifanc, roedd hon yn daith a hanner, ac yn siwrne llawn peryglon!

Un tro rwy'n cofio'r eira'n dechrau cwmpo, a minnau'n dechrau poeni o ddfiri am gyrraedd pen y daith yn ddiogel. Erbyn iddi nosi roedd y priffyrdd wedi cau, ond roeddem ninnau yn ddiogel yn y stafell ffrynt, yn cael edrych mewn rhyfeddod ar y byd dan gwrlid o eira.

Mae adeg y Nadolig yn ein gwahodd ni i fynd ar daith gyda'n gilydd. Nid trip siopa i Gaer sydd gen i mewn golwg fan hyn – er mawr lawenydd i sawl un! – ond taith gyda'n gilydd at y preseb. Rydyn ni'n cael ein gwahodd i ddod mewn rhyfeddod gyda'r angylion, y doethion, a'r bugeiliaid. Ond wrth i ni wneud hynny mae'n werth i ni atgoffa'n hunain am graidd stori'r Nadolig – fod Duw, o'i gariad, wedi dod atom ni yng Nghrist. Mae'r hen garolau yn ein hatgoffa am yr 'addewid roed i Adda' am un oedd yn dod i achub. Yng ngeni Iesu mae pob un o'r addewidion hynny wedi dod yn wir: 'Daeth y Gair yn berson o gig a gwaed; daeth i fyw yn ein plith ni. Gwelon ni ei ysblander dwyfol, ei ysblander fel Mab unigryw wedi dod oddi wrth y Tad yn llawn haelioni a gwirionedd.'

Dyma felly ddymuno Nadolig llawen i chi a phawb sy'n annwyl i chi. Gadewch i ni weddio dros ein gilydd – y cawn ni drwy'r holl brysurdeb brofi Duw yn agos atom yng Nghrist.

Rhyfedd, rhyfedd gan angylion,
Rhyfeddod fawr yng ngolwg ffydd,
Gweld Rhoddwr bod, Cynhaliwr helaeth
A Rheolwr pob peth sydd,
Yn y preseb mewn cadachau
A heb le i roi ei ben i lawr,
Ac eto disglair lu'r gogoniant
Yn ei addoli'n Argliwydd mawr.



DYDDIADUR

Cinio'r Ofalaeth
Cynhelir Cinio Nadolig
yn y Capel Mawr

Dydd Gwener, Rhagfyr 8fed
am 12 dydd. Ar pris yn £12.00
Croeso i bawb

CINIO DYDD NADOLIG

Bydd cinio ar gael yn Ffestri St Thomas eto y
flwyddyn yma i unrwy un sydd ar ben ei hun.

Mae ffurflen yng nghefn y Cadwyn Bro
Cysylltwch gyda Mrs Iona Thomas – 01745 813256
neu Parch Nesta Davies – 07870323790

RHAGHYSBYSIAD

Nos Sul 18fed Mawrth 2018
Cyngerdd yng Nghapel y Pentre
gyda Côr Cytgan Clwyd



Astudiaethau Beiblaidd Cyfnod yr Adfent

Eleni byddwn yn treulio ychydig amser yn edrych ar ein hoff garolau ac yn gweld beth mae'r rhain yn dweud wrthym ni am neges y Nadolig. Croeso mawr i bawb!

- 06 Rhagfyr, 1.30 y.p. Festri Trefnant
- 13 Rhagfyr, 1.30 y.p. Festri Capel y Pentre
- 20 Rhagfyr, 1.30. y.p. Festri Trefnant

TREFNIADAU'R EGLWYSI

BODFARI

Dydd Sul, Rhagfyr 10 –

10.00 – Parch Nesta Davies (Cymun)

Dydd Llun, Rhagfyr 11 – 12.00 – 1.00

Cinio Cynnil yn y Festri

Croeso cynnes i bawb

Dydd Sul, Rhagfyr 17

2.00 – Parch Andras Iago

Dydd Llun, Rhagfyr 25 – Capel y Fron

9.30 – Bore'r Wyl Oedfa Gymun i'r Fro

Dydd Sul, Rhagfyr 31

10.00 – Oedfa'r Fro – Capel y Dyffryn –

Parch Andras Iago a'r Parch Nesta Davies

Dymunwn Nadolig Llawn i'r holl aelodau

BRWCWS

Dydd Sul, Rhagfyr 3ydd

Ysgol Sul am 10.00

Oedfa Gymun y Teulu - Parch. Andras Iago am 2.00

Dydd Sul, Rhagfyr 10ed

Ysgol Sul am 10.00

Aled Lewis Evans am 2.00

Dydd Sul, Rhagfyr 17eg

Ysgol Sul am 10.00

Gwasanaeth Nadolig am 2.00

Dydd Sul, Rhagfyr 24ain

Carol a Llith yn y Capel Mawr am 10.00

Gwasanaeth Noswyl Nadolig y Brwcws am 11.15yh

Bore Nadolig Gwasanaeth yng Nghapel y Fron am 9.30

Dydd Sul, Rhagfyr 31

Sul y Fro. – Capel y Dyffryn

Parch Andras Iago a'r Parch Nesta Davies

Y DYFFRYN

Dydd Sul Rhagfyr 3ydd am 11.15 Parch Eric Jones

Gwasanaeth Cymun/Ysgol Sul Plant (Ysgol Sul Oedolion 10.30)

Emyn a darllen - Iestyn

Emyn a darllen plant - Llïon/Osian

Organ - Iona

Blodau - Veronica.

Nos Lun Rhagfyr 4ydd Y Gymdeithas

"Fy hanes yn Zeland Newydd"

Sion Eilir Roberts

Dydd Sul Rhagfyr 10fed am 10 Cyfarfod Gweddi.

Ysgol Sul Plant

Bydd Pwyllgor Blynyddol yr Ysgol Sul ar ol y Gwasanaeth

Organ - Helen

Blodau - Gwyneth Evans

Dydd Sul Rhagfyr 17eg am 11.15 -

Gwasanaeth Nadolig y Plant/Parch Andras Iago

Organ - Alaw

Blodau - Nyn

Nos Lun Rhagfyr 18fed

Parti Nadolig

Dydd Sul Rhagfyr 24ain am 11.15 - Parch Andras Iago

Emyn a darllen - Glesni

Organ - Glenys

Blodau - Nia

Dydd Sul Rhagfyr 31ain am 10 - Sul y Fro -

Parch Andras Iago a'r Parch Nesta Davies

Emyn a darllen - Liz

Organ - Ann

Blodau - Mary

Ar ddechrau Hydref cynhaliwyd Diolchgarwch y plant ar y cyd gyda plant Gellifor. Yn ystod y gwasanaeth cyflwynodd y plant roddion sylweddol at Banc Bwyd Dinbych ynghyd a chasgliad o £140.00.

Cyhoeddwyd hefyd bod Casgliadau y blychau eleni yn cael eu rannu - £150.00 yr un rhwng

Tŷ Gobaith ac Ysbyty Gobowen ac hefyd bod y swm o £800.00 wedi ei gasglu at Corwynt Cariad

Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Ein cofion at ein aelodau sydd ddim yn mwynhau'r iechyd gorau ar hyn o bryd.

Dymunwn Nadolig Bendithiol i bawb.

GELLIFOR

Dydd Sul , Rhagfyr 3 – Dyffryn

11.15 – Parch Eric Jones

Dydd Sul, Rhagfyr 10 – Eglwys Llangynhafal

6.00 - Carolau Gymuned

Gwasanaeth Dechreuol – Marian Haf

Dydd Sul, Rhagfyr 17

10.00 -Parch Andras Iago

Llywydd – Nic

Gwasanaeth Dechreuol – Bryn Bedw

Cyfeillio – Richard

Dydd Sul, Rhagfyr 24

10.00 – Llith a Charol -

Llywydd – Glen

Gwasanaeth Dechreuol – Gareth, Nic a Glen

Cyfeillio – Margaret

Dydd Sul, Rhagfyr 31 –

10.00 Sul y Fro=Capel y Dyffryn – Parch Nesta Davies a'r

Parch Andras Iago

FRON

Llywydd y Mis – Mrs Gaynor Prew

Dydd Sul, Rhagfyr 3ydd

10.00 – Capel Mawr – Bugail oedfa Gymun

5.30 – Fron – Bugail

Dydd Sul, Rhagfyr 10fed

10.00 – Fron – Mr Aled Lewis Evans

5.30 – Capel Mawr – Mr Aled Lewis Evans

Dydd Sul, Rhagfyr 17eg

10.00 – Fron – Gwasanaeth Nadolig –

Parti Nadolig y Plant i ddilyn

Dydd Sul, Rhagfyr 24ain

10.00 – Capel Mawr Gwasanaeth Carol a Llith

Y Fron a'r Brwcws yn Ymuno

Nos Sul, Rhagfyr 24 – yn y Brwcws

Gwasanaeth Noswyl y Nadolig am 11.15 yr hwyr

Bore dydd Nadolig – Dathlu'r Wyl gyda oedfa Gymun

yn y Fron am 9.30

Dydd Sul, Rhagfyr 31ain

10.00 – Oedfa'r Fro – Capel y Dyffryn

Parch Andras Iago a'r Parch Nesta Davies

Llestri'r Cymun – Mrs Pamela Lloyd a Dilys Davies

Blodau – yn gyfrifol – Mrs Gaynor Prew

3ydd – Mrs Eiri Jones

10fed – Mrs Margaret Madoc Jones

17eg

24ain

30ain

Croesawu

3ydd – Mr Gwyrfaï Jones

10fed – Mr Richard Snelson

17eg – Mr Aelwyn Lloyd

25ain – Dilys Davies

31ain – Mrs Wendy Lloyd Jones

Yr ydym yn cydymdeimlo gyda Mr a Mrs Gareth Morgan, y mae Nerys wedi colli ei mham sef Mrs Laura Jones o Rhuthun.

Anfonwn ein cofion at Mrs Anwen Williams, Carrog. Y mae Anwen wedi cael codwm a torri ei garddwn. Ac y mae Mrs Magi Jones wedi cael llawdriniaeth ar ei llaw. Diolch i bawb sydd wedi llenwi bocs esgidiau, cyfrannu nwyddau ac arian at yr apêl flynyddol yma. Yr ydym yn anfon 25 bocs trwy law yr elusen T4u, Llandrillo yn Rhos i blant anghenus erbyn y Nadolig.

Y CAPEL MAWR A SEION

Dydd Sul, Rhagfyr 3

10am – Y Capel Mawr - Y Gweinidog - Oedfa Gymun

5.30pm – Y Fron – Y Gweinidog

Dydd Sul, Rhagfyr 10

10am – Y Fron – Mr Aled Lewis Evans, Wrecsam

5.30pm – Y Capel Mawr – Mr Aled Lewis Evans, Wrecsam

Dydd Llun, Rhagfyr 11

Cyfarfod Gweddi am 1.30pm

Dydd Sul, Rhagfyr 17

4pm – Y Capel Mawr – **Dathlu'r Nadolig** – gwasanaeth teuluol

Dydd Mawrth, Rhagfyr 19

Yr Aelwyd am 2pm - Brethyn Cartref Nadoligaidd

Dydd Sul, Rhagfyr 24

10am – Y Capel Mawr – **Paratoi ar gyfer yr Ŵyl** -

Gwasanaeth Llith a Charolau

Dydd Llun, Rhagfyr 25

9.30am – Y Fron - **Bore'r Ŵyl** – oedfa Gymun i'r Fro

gyfan dan arweiniad y Gweinidog

Dydd Sul, Rhagfyr 31

10am – Y Dyffryn – Parch Andras Iago a'r Parch Nesta Davies
oedfa i'r Fro gyfan

Llywydd Y Mis: – Mrs Nerys Ann Roberts

Wrth y Drysau:-

Mr Dyfan Roberts

Mr Steffan Jones

Casglyddion:-

Mr Dyfan Roberts
Mr Steffan Jones

Organyddion/Cyfellyddion:-

Rhagfyr 3 – Mrs Dorothy Rogers
Rhagfyr 10- Mrs Catrin Warren
Rhagfyr 17 – Mrs Doris Williams
Rhagfyr 24 - Mrs Dorothy Rogers
Rhagfyr 31 - Mrs Catrin Warren
Rhoddir y Blodau gan:-
Rhagfyr 3 - Mrs Sian Eifion Jones

Llestri'r Cymun:-

Mrs Dorothy Bartley
Mrs Olwen Roberts

BORE COFFI

Codwyd £221.70 tuag at gronfa Corwynt Cariad yn y Bore Coffi a gynhaliwyd gan yr aelwyd yn y Ffestri ar Hydref 28ain.

Dymuna swyddogion yr eglwys ddiolch o galon i'r Aelwyd am ysgwyddo'r gwaith o gynnal y gweithgaredd ac i bawb a gefnogodd mewn unrhyw fodd.

CYFRANIADAU

Gyda'r rhifyn hwn byddwch fel aelodau yn derbyn taflen yn nodi'ch cyfraniad eleni hyd at nos Sul, Tachwedd 19eg.

Dymuna'r swyddogion ddiolch o galon i chi am eich haelioni a'ch cefnogaeth i'r achos.

CYFRANIADAU'R PLANT

Daeth yn amser inni dderbyn cyfraniadau'r plant.

Os gwelwch yn dda, a wnewch chi roi'r cyfraniad mewn amlen blaen gan nodi ar y tu allan enw'r plentyn/plant a'r swm a gaiff ei gyfrannu.

PENTRE, PRION, GLYN

Dydd Sul Rhagfyr 3ydd

10.00 Pentre Myfyrdod y Nadolig

Dydd Sul, Rhagfyr 10fed

10.00 Pentre - Gweinidog gyda
Gwasanaeth Nadolig y Plant a'r bobl ifanc

Dydd Sul, Rhagfyr 17eg

10.00 Pentre - Parch T L Williams

Dydd Sul, Rhagfyr 24ain

10.00 Prion - Gwasanaeth Llith a Charol

Dydd Sul, Rhagfyr 31ain

10.00 Dyffryn Sul y Fro -
Parch Andras Iago a'r Parch Nesta Davies.

Dydd Sul Ionawr 7fed -

9.45 Pentre- Parch Nesta Davies

CYDYMDEIMLO

Ein cydymdeimlad gyda Mrs Mair Roberts Cwm Parc wedi colli ei chwaer yng nghyfraith, Mrs Lin Jones o'r Bala

DYMUNIADAU GORAU am wellhad buan i Mr Dafydd Roberts, Cwm Parc sydd yn ysbyty Glan Clwyd

CYMDEITHAS

Cawsom noson arbennig wrth wrando ar deulu Dolwar yn deud eu hanes diddorol a emosiynal yn eu profiad yn Thailand, diolch i Nerys am eu cyflwyno ac i Ruth a Paula am y siocled poeth a'r cacennau i ddilyn, i Carys a Sheila am y tan gwyllt i orffen y noson ac i Bari am ofalu amdanynt.

Noson nesa, parti Nadolig y Plant ac ymweliad gan Sion Corn!

CYFARCHION NADOLIG

Bydd poster yn y Capel eto eleni inni rhoi ein cyfarchion at ein cyd-aelodau, a fydd y rhoddion ariannol yn mynd tuag at Sant Cyndeyrn, a mae cardiau Nadolig elusennau ar werth hefyd

RHAGHYSBYSIAD

Nos Sul 18fed Mawrth 2018 Cyngerdd yng Nghapel y Pentre gyda Côr Cytgan Clwyd

GLYN

Nos Sul, Rhagfyr 17eg am 7 o'r gloch

Cynhelir ein Gwasanaeth Nadolig, ac ar derfyn y gwasanaeth cawn ddod at ein gilydd i fwynhau lluniaeth wedi ei baratoi gan y merched ifanc.

TREFNANT

Llywydd y Mis EIFION WILLIAMS

Dydd Sul Rhagfyr 3ydd

10.00 Parch Eric Jones 11.00 YSO

3.00 Parch Eric Jones

Blodau : Morfudd Evans

Dydd Sul Rhagfyr 10fed

10.00 Mr Royce Warner 11.00 YSO

3.00 Gwasanaeth Gweddi a Mawl

Blodau : Morfudd Evans

Dydd Sul Rhagfyr 17eg

10.00 Gwasanaeth Nadolig gyda phaned i ddilyn

3.00 Gwasanaeth Gweddi a Mawl

Blodau : Dilys Hughes

Dydd Sul Rhagfyr 24ain

10.00 Parch Andras Iago

Blodau : Dilys Hughes

Dydd Nadolig Rhagfyr 25ain 9.30

Oedfa Gymun i'r Fro CAPEL MAWR

Dydd Sul Rhagfyr 31ain

10.00 – Oedfa'r Fro Y DYFFRYN

Parch Andras Iago a'r Parch Nesta Davies

CYFARFOD GWEITHGAREDDAU Mae'r cyfarfodydd ar brynhawniau Llun yn dal i'w cynnal rhwng 2.00 – 4.00 pm ac mae'r aelodau, erbyn hyn wedi bod yn brysur iawn yn llenwi'r bocsys Nadolig. Anfonwyd deuddeg o focsys ar ran yr Eglwys i'w dosbarthu i blant Christmaschild. Diolch i chi gyd am eich gwaith. Cynhelir y Ffair Nadolig Flynyddol ar Ddydd Sadwrn, Tachwedd 25ain, yn Neuadd y Pentref ac eleni rhennir yr elw rhwng "CLIC SERGEANT" Cancer Plant, a'r Capel. Croeso cynnes i bawb.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL Yn ein cyfarfod ar Nos Wener, Hydref 27ain cawsom noson ddiddorol gan Eira Jones, Trefriw, wrth iddi rannu hanes Plas Pren, Bryntrillyn gyda ni. Llywyddwyd y noson gan Eleri Jones a diolchwyd i Eira gan Dylan Roberts. Yn ein cyfarfod nesaf ar Nos Wener, Tachwedd 24ain, byddwn yn croesawu cyfeillion Capel y Dyffryn atom i fwynhau noson o Bingo dan ofal Angharad Ellis ac yna ar nos Wener, Rhagfyr 22ain, gobeithiwn am noson gymdeithasol pan ddaw Sion Corn i ymweld a ni. Croeso cynnes i bawb,

CYFARCHION a DYMUNIADAU GORAU i bawb sydd wedi bod yn sal yn ddiweddar - braf ein bod wedi gallu croesawu nifer yn ol i'r oedfaon erbyn hyn ond estynnwn ein cofion yn arbennig at Marian Roberts a Gwyneth Evans yn yr Inffirmari yn Ninbych. Brysiwch adre eich dwy.

NEGES NESTA

Wele fi yn ôl yn fy ngwaith ar ôl bythefnos ... ACHOS
GWENWYN BWYD!

Gawsoch chi hwnnw erioed? Dydy o ddim yn brofiad
pleserus....a does wybod o ble yn union y cawsoch chi'r aflwydd,
ond unwaith mae'n cydiad, fiw ichwi symud o'r tŷ! Dyna lle'r
ydych yn rhedeg am y tŷ bach, gan deimlo'n wan, a meddwl...be
fwytes i? Gan dybio bod popeth rydych yn ei gyffwrdd wedi ei
heintio..ac mai cawl clir a digon o ddŵr ydy'r peth gorau i gael ei
wared.

Bellach mae gan y doctoriaid ma dabledi gwrthfotig
cryfion ac os cymrwch chi nhw'n syth mi fyddwch chi'n well.
Ac mi ufuddheuais i gyngor y meddyg- yn enwedig am ei bod hi
wedi fy ffonio i gartref i ddweud wrthyf am fynd draw i'r feddygfa
i nôl prescripsiwn o fewn hannerawr!!! Ond yn lle teimlo'n well ,
roeddwn yn benysgafn a chyda phendro a trôdd yr wythnos i
ffwrdd o'n ngwaith yn bythefnos...a wir i chi, dwi'n dal yn ceisio
dod nôl i normalwydd.! Ond mi fase llawer ohonnoch yn deud
nad ydw i'n Normal b'run bynnag!

Yn y cyfamser mi welodd llawer ohonnoch luniau
ohonnof... ar y teli yn Dechrau Canu Dechrau Canmol (a
recordiwyd gaeaf dwaethaf) neu'n hysbysebu y Gymanfa Gytun
ar HENO...oedd wedi ei baratoi wythnos o flaen llaw...a rhaid
cyfaddef bod rhywfaint o oleuo a llwyfannu yn mynd i mewn i'r
rhaglenni hyn! **OND A'N LLAW AR FY NGAHLON** – dw i erioed
wedi cael brws awyr yn agos at fy wyneb!! Beth sy'n bwysig - y
Ddelwedd neu'r Sylwedd?

Dyna oedd byrdwn ein Stori ddiweddar efo **AGOR Y LLYFR** –
Samuel yn Creu Brenhinoedd, fe wrthododd Duw y rhan fwyaf o
Feibion Jesse i fod yn Frenin, gan ffatrio'r ieuengaf – Dafydd.
Achos yr hyn sydd yn y tu mewn yn hytrach na'r tu allan sydd
bwysicaf!

Hyfryd oedd cael help Plant Twm o'r Nant i Gyflwyno'r Neges yma.



.Hefyd Diolch i bawb wnaeth gefnogi Cymanfa Ganu Cytun Dinbych ar nos Sul Tachwedd 19 Yng Nghapel y Fron. Gwnaethpwyd elw o £126 at Apêl Eisteddfod yr Urdd Bro Dinbych 2020. Cafwyd eglurhad clodwiw am hynodrwydd y Pêr Ganiedydd gan y Parch Dr Andras Iago a bu canu penigamp ar emynau adnabyddus a chyfraniadau safonol gan Nerys Ann Roberts ac Ifor John Jones a chanu cynulleidfaol dan arweinyddiaeth y Parch Nesta Davies.





Hyfryd yw gweld Helen Pierce Capel y Fron yn elwa ar wasanaeth Gofal Dydd Waengoleugoed - os hoffech chwi elwa ar y Gwasanaeth neu gael Cinio Diwrnod Dolig yn Eglwys Sant Thomas Cysylltwch a fi
07870323790

CINIO DYDD NADOLIG

Bydd cinio ar gael yn Ffestri St Thomas eto y flwyddyn yma i unrhyw un sydd ar ben ei hun.

Os ydych am ymuno a ni llenwch y ffurflen isod a'i dychwelyd gyda blaendal o £5.00 mor fuan a sydd bosib. Fe gewch ad-daliad ar ôl y cinio.

Enw.....

Cyfeiriad.....

Rhif ffon.....

Angen Cludiant.....Oes - Nacoes

Anghenion Dietegol Arbennig.....

Dychwelwch y ffurflen a'r blaendal i

Mrs Iona Thomas 01745 813256

neu Parch Nesta Davies 07870323790

Faint, illegible text at the top of the page, possibly a header or title.



A large, very faint rectangular block of text, likely the main body of a letter or document, which is mostly illegible due to fading.

Another large, very faint rectangular block of text, similar to the one above, containing illegible content.

Rhifyn Ionawr o'r Cadwyn Bro, erbyn
dydd Gwener Rhagfyr 15
e-bost: gwenfyljones@btinternet.com neu:
01745890417